# RHYBUDD o Benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor 1 ac yn rhithwir ar ZOOM ddydd Mawrth, 26 Medi, 2023

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Gwener, 29 Medi 2023. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ddydd Gwener, 6 Hydref, 2023. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Llun, 9 Hydref 2023.

**Yn bresennol**: Cynghorwyr Dafydd Rhys Thomas, Carwyn Jones, Robin Williams (Dirprwy Arweinydd) (Cadeirydd), Gary Pritchard, Nicola Roberts, Neville Evans a Dafydd Roberts

**Hefyd yn Bresennol**: Cynghorwyr Douglas Fowlie, Glyn Haynes, Gwilym O. Jones, John Ifan Jones, Robert Ll. Jones, Pip O'Neill, Dylan Rees.

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Llinos Medi ac Alun Roberts

(10:00 a.m. - 12:05 p.m.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2023 yn gywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi ei** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Hydref 2023 – Mai 2024 gyda'r newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau cynllunio ymlaen llaw** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 1, 2023/24**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2023/24 gan nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn edrych arnynt ac yn ymchwilio iddynt er mwyn rheoli a sicrhau gwelliannau pellach ar gyfer y dyfodol fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn adnabod a mynd i'r afael â'r meysydd hynny o'r Cyngor sy'n tanberfformio.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Adroddiad Perfformiad / Llesiant Blynyddol 2022/23 Drafft**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2022/23 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac argymell i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod Hydref 26ain, 2023 y dylid ei fabwysiadu.** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 - Chwarter 1**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br>• **Y sefyllfa a nodir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ddisgwylir am 2023/24;**<br>• **Crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn am 2023/24, y manylir arnynt yn Atodiad C yr adroddiad.**<br>• **Monitro costau asiantaethau ac ymgynghoriadau am 2023/24 yn Atodiadau CH a D.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad Cyllideb Refeniw 2023/24** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Monitro Cyllideb Gyfalaf 2023/24 - Chwarter 1**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2023/24 yn ystod chwarter 1.**<br>• **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol sy'n dod i gyfanswm o £5.442m i'r rhaglen gyfalaf a diwygiadau i gyllid yn unol ag Atodiad C yr adroddiad, a fydd yn arwain at gyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £58.141m ar gyfer 2023/24.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad Cyllideb Cyfalaf 2023/24.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24 - Chwarter 1**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2023/24.**<br>• **Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023/24.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai 2023/24** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 - 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2024/25 – 2025/26 a chymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn gosod datganiad cyn cyllideb yn unol â gofynion cyfansoddiadol.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022/2023**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2022/23**<br>• **Cefnogi'r dasg o weithredu Polisi Enghreifftiol OGCC**<br>• **Cefnogi'r dasg o ddatblygu strategaeth hyfforddi**<br>• **Cefnogi'r dasg o ddatblygu asesiad anghenion hyfforddi a chyflwyno hyfforddiant addas yn ôl yr angen**<br>• **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac yn cytuno i weithredu'r elfennau y cyfeirir atynt yn ei Llythyr Blynyddol** |

| | |
|---|---|
| | • **Rhoi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a thrwy hynny roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr Aelodau i graffu ar berfformiad y Cyngor.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cydymffurfio â chais Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn a chymeradwyo'r ymateb drafft Cyngor Sir Ynys Môn i'r Adolygiad Darpariaeth Brys – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Atodiad A yr adroddiad gan gynnwys sylwadau ychwanegol mewn perthynas â'r ddarpariaeth yn Llu Awyr Brenhinol Y Fali a'r angen am adolygiad lleol o'r gwasanaeth a ddarperir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Er mwyn cefnogi'n ffurfiol yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 Cymeradwyo Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd Cymeradwyo Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn** |

| | |
|---|---|
| | |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mabwysiadu fersiwn derfynol y strategaeth yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru a gofynion Llywodraeth Cymru ac er mwyn gweithredu ar yr amcan yn y Cynllun y Cyngor Newydd o wella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

## EITEM GYFRINACHOL

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **15 Prynu Tir Gorfodol - Tir Cyflogaeth yn Llangefni**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd a'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd awdurdodi Swyddogion i gychwyn paratoadau i brynu tir yn orfodol o dan Adran 226 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel yr amlinellir yn yr adroddiad (yn cynnwys cwblhau ymarfer cyfeirio tir ffurfiol o dan Ddeddf Caffael Tir 1981 a/neu unrhyw statud berthnasol neu gysylltiedig arall ar y cyfan o'r ardal sydd ei hangen i wireddu'r datblygiad arfaethedig) ac i fwrw ymlaen yn unol â'r argymhellion ynddo.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **I gefnogi'r broses o gaffael tir er mwyn hwyluso datblygiad** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |